



Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

Cylch yn yr Ysgol

**Ysgol Gynradd Sirol Llanfair ym Muallt
Heol yr Ysbyty
Llanfair ym Muallt
LD2 3GA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg



Dyddiad Cyhoeddi

Dydd Llun, 10 Medi 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch yn yr Ysgol yn darparu gofal dydd sesiynol ar gyfer uchafswm o 24 o blant, 2-4 oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o Ysgol Gynradd Llanfair ym Muallt a darperir y gofal yn ddwyieithog er mai Saesneg yw'r brif iaith a ddefnyddir. Gareth Cornelius, Hannah Jones a Karen Probert yw'r Unigolion Cyfrifol ar gyfer y Cylch ac Estelle Wilcocks a Catherine Evans yw'r personau â chyfrifoldeb.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn mwynhau mynd i'r Cylch hwn. Maent yn mwynhau chwarae'n rhydd ac yn gyffredinol, mae'r staff yn helpu'r plant i ddatblygu eu chwarae eu hunain. Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn modd caredig a magwrus. Mae'r arweinyddiaeth yn dda yn gyffredinol. Gwnaethom gynnig argymhellion mewn perthynas â'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth, a'r themâu gofal a datblygu.

2. Gwelliannau

Ers cofrestru, mae'r arweinwyr, y staff a'r pwyllgor wedi gwneud llawer o welliannau ychwanegol. Ymysg y rhain mae:

- hysbysfyddau newydd sy'n darparu gwybodaeth i rieni yn y cyntedd;
- larymau tân wedi'u gosod yn yr ystafell oherwydd y nodwyd yn ystod ymarfer tân nad oedd yn bosibl clywed y larwm o'r ystafell a
- chabinet ffeilio newydd er mwyn sicrhau bod ffeiliau cyfrinachol yn cael eu storio'n gywir, gan fod y clo wedi torri ar yr hen gabinet ffeilio.

Yn ystod yr arolygiad, anfonodd yr arweinwyr gopi o Ddatganiad o Ddiben wedi'i ddiweddarau a'u hadroddiad Ansawdd Gofal cyntaf.

3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr:

- yn hysbysu AGC yn ffurfiol o'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llesiant plant;
- yn datblygu rôl yr helpiwr dyddiol;
- yn datblygu'r agwedd gynllunio ymhellach;
- yn diweddarau'r cynllun gweithredu;

- yn sicrhau bod y staff yn annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch;
- yn datblygu strategaethau rheoli ymddygiad ymhellach ac
- yn darparu mwy o dystiolaeth yn y proffiliau er mwyn helpu arsylwadau'r staff.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae gan y plant ddewis a gallant wneud penderfyniadau. Mae'r plant wedi ymlacio, wedi ymgartrefu ac yn hapus i fynychu ac maent yn mwynhau chwarae. Mae llawer o'r plant wedi datblygu cydberthynas agos ag eraill. Yn gyffredinol, gwelsom fod y plant yn dysgu sut i ymddwyn a rhannu ond gwelsom fod rhai plant yn cael anawsterau mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Ein canfyddiadau

1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Roedd y plant yn rhydd i archwilio'r ardaloedd dan do ac awyr agored a phenderfynu drostynt eu hunain beth roeddent am ei chwarae yn ystod yr amser chwarae'n rhydd.

Roedd y plant yn dewis beth roeddent am ei chwarae yn ystod yr amser chwarae'n rhydd ac yn gallu symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Gwelsom y plant yn dewis chwarae mewn ardaloedd amrywiol yn yr awyr agored, er enghraifft, yn yr ardal gweithgareddau, roeddent yn chwarae yn y gegin fwd, yn yr ardal dŵr a thywod, yn yr ardal adeiladu ac ar y beiciau tair olwyn. Yn yr ardaloedd dan do, roedd y plant yn archwilio'r ardal crefftiau, yr ardal darllen, yr ardal greadigol a'r ardal adeiladu. Roedd y plant yn cael dewis o ffrwythau ar adeg byrbryd ac roeddent yn gallu cael mwy pan roeddent yn dymuno. Ar adeg byrbryd, trafododd y plant ffrwythau amrywiol gyda'r staff a gofynnodd un plentyn yn gwrtais am bys ffres ac wrth iddi agor y goden, dywedodd 'Dwi wrth fy modd gyda phys'. Dywedodd plentyn sydd fel arfer yn yfed llaeth 'Ga i ddŵr?' a chafodd y dŵr a'i yfed yn fodlon. Roedd y plant yn cael rhan deg yn y cynllunio a dywedwyd wrthym eu bod yn cyfrannu at eu syniadau ar lafar. Roedd y plant yn cael dewis pa ganeuon i'w canu yn ystod amser cylch.

Mae gan y plant lais priodol.

1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn ymdopi â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn hollol fodlon wrth chwarae.

Roedd y plant yn fodlon ac wedi ymlacio wrth iddynt archwilio'r ardaloedd amrywiol ac yn dangos eu bod yn mwynhau'r teganau a'r adnoddau ac yn cymryd diddordeb ynddynt. Roedd y plant wedi ymgartrefu'n dda yn yr amgylchedd ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at staff. Roedd y plant yn mwynhau archwilio'r ffrâm gweithgareddau yn fawr ynghyd â'r lle cuddio oddi tanodd ac roeddent yn hyderus wrth ddringo i lawr y rhaff; clywsom sgrechiadau cyffrous yn dod o'r ardal ar sawl achlysur. Gwelwyd un plentyn yn canolbwyntio wrth drosglwyddo dŵr o'r twba dŵr i'r gegin fwd a gwenodd yn falch pan gafodd ei ganmol am ei ymdrechion. Roedd digon o le i'r plant archwilio a gwnaethom eu

gweld yn mwynhau symud o un ardal i'r llall fel y dymunont. Roedd y plant yn hapus i roi cynnig ar fwyta pomgranad a gwnaeth sawl un ei fwynhau. Roedd y plant yn gyfarwydd iawn â threfn, er enghraifft, ar ôl gorffen eu byrbryd gwnaethant roi eu platiau yn y sinc heb gael eu hannog i wneud hynny.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi

1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad ac mae llawer yn ymddwyn mewn modd a dderbynnir yn gymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais wrth ei gilydd a'r staff. Ar adegau, bu'n rhaid i'r staff atgoffa rhai plant o'u ffiniau gan eu bod mor frwdfrydig ac yn canolbwyntio ar chwarae. Er enghraifft, ar ddiwedd y sesiwn, agorodd dau blentyn fagiau a thaflodd un plentyn flwch plastig gwag. Bu'n rhaid atgoffa rhai plant ar rai adegau o'r angen i gymryd gofal ac o'r risgiau o anafu eraill a gwnaethant wrando ar y cyngor. Yn gyffredinol, roedd y plant yn rhyngweithio'n dda dan do ac yn cymdeithasu'n dda wrth iddynt symud o un ardal i'r llall. Roedd digon o adnoddau a gweithgareddau ar gael iddynt dan do ac roeddent yn rhyngweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd y plant yn hyderus wrth fynd at staff ac ymwelwyr i ofyn cwestiynau neu i sgwrsio. Roedd y plant yn siarad yn llawn brwdfrydedd am ganu ar y llwyfan fel rhan o basiant Eisteddfod yr Urdd a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y dref. Dechreuodd un plentyn ganu cân am dacluso, heb gael ei annog, a dechreuodd dacluso a dilynodd eraill ef. Yn ystod amser cylch, roedd nifer fach o blant yn cael anhawster i setlo ac er i'r staff ymdrechu'n dda i reoli'r ymddygiad nid oedd hynny'n effeithiol bob amser. Dangosodd nifer fach o blant gwrteisi da heb gael eu hannog, er enghraifft, gofynnodd un plentyn am afal, 'Ga i os gwelwch yn dda?' Roedd y plant yn gyfarwydd iawn â'r caneuon a'r symudiadau, ac roeddent yn canu'n frwdfrydig.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda ag eraill.

1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae ac roeddent yn cymryd diddordeb yn eu chwarae rhydd, er bod rhai ohonynt yn anniddig yn ystod gweithgareddau grŵp dan arweiniad oedolion.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn ymgysylltu â'r teganau ac adnoddau oedd ar gael iddynt ac yn cymryd diddordeb ynddynt. Cynhaliodd y plant ddiddordeb yn eu dewis o chwarae'n rhydd dan do ac yn yr awyr agored. Ymysg yr enghreifftiau roedd plant yn ymgysylltu â chwarae creadigol yn y gegin fwd, roedd eraill yn mwynhau chwarae gyda cherbydau, chwarae yn yr ardal gweithgareddau a chwarae gyda theganau dŵr ac adeiladu. Yn ystod y gweithgareddau canu i'r grŵp cyfan, dangosodd rhai o'r plant fwynhad a brwdfrydedd drwy ganu ond roedd eraill yn anniddig.

Yn gyffredinol, mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn gwneud cynnydd da ac maent yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd.

Roedd y plant wedi dysgu patrymau iaith syml yn effeithiol gan y staff ac roedd y rhain wedi'u nodi ar bosteri ar y wal. Roedd y plant yn gofyn 'Ga i laeth?' 'Ga i ddŵr?' 'Ga i bys ffres?' Roedd y plant yn gallu agor pys ffres yn annibynnol. Penderfynodd un plentyn greu llun yn yr ardal crefftiau a llwyddodd i ddod o hyd i'r holl adnoddau roedd eu hangen i liwio llun a gludodd y plentyn wlân fel gwallt hefyd. Saesneg oedd y plant yn ei siarad yn gyffredinol ond roeddent yn siarad Cymraeg gydag ymyrraeth gan y staff. Roedd y plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio, a oedd yn cynnwys gwneud tost Santes Dwynwen a phobi cacennau blwyddyn newydd Tsieineaidd. Roedd y plant yn cael digon o gyfle i ymarfer ysgrifennu eu henw a gwelsom y plant yn ymarfer eu sgiliau gafael pinsiwrn wrth roi pegiau ar lein. Yn ystod y sesiwn yn y prynhawn, gwelsom blentyn yn rhannu'r platiau yn ystod amser byrbryd ac aeth pob plentyn ati i roi eu gwastraff yn y bin yn ystod y sesiynau yn y bore a'r prynhawn. Roedd y plant yn ymarfer gwneud pethau'n annibynnol drwy wisgo eu hesgidiau a golchi eu dwylo eu hunain.

Mae'r plant yn datblygu'n dda, a chânt eu hannog i fod yn annibynnol yn gyffredinol.

2. Gofal a Datblygiad

Crynodeb

Mae'r staff yn ofalgar ac yn trin y plant yn garedig. Mae gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisiau'r Cylch yn briodol ac yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn gyffredinol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Ein canfyddiadau

2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant perthnasol ac yn cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant a chymorth cyntaf a gwelsom sampl o'r tystysgrifau hyn yn ffeiliau'r staff. Roedd polisi amddiffyn plant cynhwysfawr ar waith gyda diffiniadau o gam-drin. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai pryder am blentyn. Roedd rhai aelodau o staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas â'r ddyletswydd atal. Gwelsom y ffeiliau damweiniau a digwyddiadau, a oedd wedi'u cwblhau yn gywir ac wedi'u llofnodi gan staff a rhieni/gofalwyr. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta ac roedd y staff yn sicrhau eu bod yn sychu'r holl fyrddau gyda chwistrell wrthfactoria cyn i'r plant eistedd i gael byrbryd. Gofynnodd y staff i'r rhieni roi ffrwythau bob dydd a rhannwyd yr holl ffrwythau rhwng yr holl blant gan eu galluogi i roi cynnig ar amrywiaeth o ffrwythau a gwelsom y plant yn cael dewis eang yn cynnwys pys ffres, pomgranad ac afalau. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y staff yn rhagweithiol o ran sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i'r plant a'u bod hefyd yn sicrhau bod y plant yn yfed digon yn ystod y sesiwn yn ystod diwrnod poeth iawn.

Mae'r staff yn effeithlon wrth gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gadarnhaol ac yn sylwgar ond ar adegau, mae'r dull o reoli ymddygiad yn anghyson.

Roedd polisi ymddygiad clir ar waith ar gyfer y gwasanaeth a gwnaethom arsylwi'r staff yn ei ddilyn yn gyffredinol, er enghraifft, roedd y staff yn canmol y plant am ymddwyn yn gadarnhaol; roeddent yn rhoi anogaeth ysgafn i'r plant ymddwyn yn briodol; ac roeddent yn delio'n ddigynnwrf ac yn briodol gyda mân anghydfodau. Clywsom aelod o staff yn canmol plentyn am ddefnyddio'r Gymraeg 'Ti'n dda yn siarad Cymraeg'. Rhoddodd un aelod o staff anogaeth ysgafn a chadarnhaol i blentyn yn ystod sesiwn gwneud marciau, 'Mae'n wych iawn, da iawn ti'. Ar achlysur arall, ymyrrodd aelod o staff yn briodol pan oedd plentyn yn

camymddwyn dro ar ôl tro, gan atgoffa'r plentyn i ddefnyddio dwylo tyner ac yna ymddiheurodd y plentyn a dweud 'sori'. Fodd bynnag, ni chafodd negeseuon esboniadol i annog y plentyn i beidio ag ailadrodd yr ymddygiad eu cyfleu ar yr achlysur hwnnw. Yn ystod amser cylch, gofynnodd aelod o staff i blentyn nad oedd yn gwrandao i eistedd wrth ei hymyl a chafodd plentyn a oedd yn aros yn eiddgar ddewis cân.

Yn gyffredinol, mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn briodol.

2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn. Maent yn diwallu eu hanghenion ac yn ymwybodol o hoffterau'r plant. Maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer eu datblygiad er mwyn ehangu dysgu'r plant.

Anogodd y staff y plant i hunangofrestru ac roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gallu adnabod eu henwau. Anogodd y staff y plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rhydd ar ôl cyrraedd fel eu bod yn cael amser i ymgysgu. Yn ystod amser byrbryd, gofynnodd y staff i'r plant enwi'r ffrwythau gwahanol a gynigiwyd a gwnaethant hynny yn llwyddiannus. Rhoddodd y plant eu gwastraff yn y bin ar ôl gorffen y byrbryd. Fodd bynnag, collwyd cyfleoedd yn ystod amser byrbryd o ran datblygu sgiliau annibyniaeth y plant ymhellach. Rhoddodd y staff gyfleoedd iddynt gyfrif cerrig wedi'u rhifo ac adnabod lliwiau yn Gymraeg a chofnodi eu cyflawniadau. Hefyd, defnyddiodd y staff Numicons i ddatblygu dealltwriaeth fathemategol y plant ac roeddent hefyd wedi bod ar gwrs. Yn ystod amser cylch, defnyddiodd y plant gardiau wedi'u lamineiddio i adnabod caneuon ac i ddewis cân o'u dewis. Cofnododd y staff arsylwadau o sgiliau'r plant a defnyddio'r wybodaeth i fwydo i mewn i'r broses gynllunio wythnosol. Hefyd, cwblhaodd y staff y proffil cyfnod sylfaen ar gyfer pob plentyn ac roeddent wedi atodi tystiolaeth o waith y plant. Cadarnhaodd y rhieni fod y staff wedi cyfrannu at ddatblygiad eu plentyn a pha mor dda roedd eu plant wedi ymgysgu.

Mae'r staff yn hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant.

3. Yr Amgylchedd

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r adnoddau o ansawdd da, wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac maent ar gael yn rhwydd. Maent yn addas ar gyfer ystod oedran y plant ac yn hyrwyddo eu camau datblygu.

Ein canfyddiadau

3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r arweinwyr yn nodi risgiau i ddiogelwch y plant, ac yn eu dileu cyhyd ag y bo'n bosibl.

Cadwyd y prif ddrws i fynedfa'r ysgol ar glo drwy'r amser ac roedd yn rhaid i ymwelwyr lofnodi llyfr ymwelwyr cyn cael mynediad. Ar ôl cyrraedd y Cylch, gwnaethom ninnau lofnodi'r llyfr ymwelwyr hefyd. Roedd yr ardal awyr agored yn ddiogel iawn. Gwelsom fod yr asesiadau risg sylfaenol wedi'u cwblhau a bod risgiau posibl wedi'u nodi. Gwelsom hefyd fod llyfr damweiniau ar waith a bod y staff yn cwblhau'r ffurflen berthnasol yn rheolaidd a bod y rhieni'n llofnodi wrth gasglu eu plentyn. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod hwyl haul wedi'i chodi er mwyn amddiffyn y plant rhag yr haul. Roeddent hefyd wedi prynu meinciau pren er mwyn creu ardal addas i gynnal amser cylch yn yr awyr agored ac wedi gosod y meinciau yn sownd i'r ddaear. Roedd y staff yn dilyn arferion hylendid da mewn perthynas â pharatoi bwyd ac roeddent wedi cael sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd y Cylch yn cynnal ymarferion tân ar yr un pryd â'r ysgol ac yn cadw eu cofnodion eu hunain.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd yn dda.

3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod yr amgylchedd yn gyfeillgar i'r plant ac yn lliwgar a chroesawgar ac yn rhoi llawer o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau. Mae'r amgylchedd awyr agored wedi'i ddatblygu.

Roedd yr arweinwyr wedi creu amgylchedd lliwgar oedd yn gyfeillgar i'r plant ac wedi darparu ardaloedd dynodedig i'r plant ddysgu, fel ardal darllen, ardal chwarae rôl ac ardal chwarae adeiladu/byd bach. Roedd pob ardal o'r Cylch wedi'i ddodrefnu gyda dodrefn o faint sy'n addas i blant a oedd yn galluogi'r plant i gyrraedd teganau a chyfarpar a chyflawni tasgau yn annibynnol. Roedd yr ardal gotiau yn groesawgar ac yn cynnwys gwybodaeth bwysig i rieni. Roedd rhywfaint o waith y plant wedi'i arddangos ym mhob rhan o'r feithrinfa, gan roi ymdeimlad o berchenogaeth i'r plant. Roedd ardal awyr agored y gellid ei chyrraedd yn uniongyrchol o'r ardal chwarae dan do ac ar ddiwrnod yr arolygiad, rhoddodd yr arweinwyr gyfleoedd rhydd i'r plant fwynhau'r ardal awyr agored. Roedd yr ardaloedd awyr

agored yn cynnwys ardaloedd ysgogi chwarae fel cegin fwd, ardal adeiladu gydag arwyddion Cymraeg, ardal chwarae gyda dŵr a strwythur chwarae dringo. Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd a oedd yn annog annibyniaeth y plant oherwydd y gallent symud o gwmpas yn rhwydd, roedd teganau wedi'u storio ar lefel isel ac mewn blychau tryloyw, roedd y toiledau a'r sinciau llaw o faint addas ac roedd pegiau cotiau gydag enwau a lluniau'r plant ar lefel addas i'r plant.

Mae'r amgylchedd yn addas iawn.

3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu cyrraedd dodrefn, cyfarpar, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas ar gyfer eu hanghenion. Roedd yr adnoddau yn lân ac o ansawdd da.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar ar gael i'r plant sydd o ansawdd da ac sy'n addas ar gyfer eu diddordebau a'u hanghenion datblygiadol. Roedd amrywiaeth fawr o adnoddau ar gael i'r plant yn cynnwys gwaith crefft, llyfrau, jig-sos, teganau adeiladu, ceir a chwarae rôl. Roedd gris ar gael yn ardal y toiled, yn ogystal â photi, pe byddai eu hangen. Roedd adnoddau amrywiol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Roedd yr arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar o ansawdd da a oedd wedi'u cynnal a'u cadw yn dda.

4. Arwain a Rheoli

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn cydweithio'n dda i ddarparu gwasanaeth effeithiol. Mae systemau ar waith er mwyn i'r staff gael hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol. Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthynas waith dda â'r rhieni, gyda sefydliad ymbarél a gyda'r ysgol.

Ein canfyddiadau

4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr bolisiau a gweithdrefnau clir ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd.

Roedd yr arweinwyr wedi ysgrifennu datganiad o ddiben a chynllun gweithredu manwl, fodd bynnag, roedd angen gwneud mân addasiadau iddynt gan fod un o'r Unigolion Cyfrifol wedi newid. Cawsom fersiwn ddiweddaedig o'r datganiad o ddiben yn ystod y broses arolygu. Gwelsom amrywiaeth o bolisiau a nodwyd gennym eu bod yn addas, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod wedi cael eu rhannu â'r staff. Roedd atebolrwydd cyhoeddus dilys ar waith. Roedd yr arweinwyr yn hysbysu'r staff o unrhyw newidiadau yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid oedd yr arweinwyr wedi hysbysu AGC o ddigwyddiad penodol yn ymwneud â lles y plant. Roedd gan yr arweinwyr bolisi amddiffyn plant manwl ar waith ac roedd y staff yn glir iawn ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai gan unrhyw un ohonynt bryder ynghylch plentyn. Roedd y staff hefyd wedi cael hyfforddiant 'Dyletswydd atal'.

Mae'r arweinyddiaeth yn dda yn y gwasanaeth hwn.

4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinydd yn rhagweithiol ac yn creu diwylliant myfyriol o adolygu a gwella parhaus, gan gynnwys y staff, y rhieni a'r plant.

Roedd yr arweinwyr yn ceisio gwella eu gwasanaeth yn barhaus. Ers cofrestru, roedd yr arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd i wella'r amgylchedd ymhellach er mwyn sicrhau bod y plant yn cael eu hysgogi. Roedd arddangosiadau a chorneli dysgu yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar, yn lliwgar ac yn addas at y diben. Roedd yr arweinwyr yn ystyried ffyrdd o baratoi'r broses tuag at yr adolygiad o ansawdd gofal ac yn ystod y broses arolygu, cawsom gopi o'u hadroddiad cyntaf o ansawdd gofal. Llwyddodd y gwasanaeth i gael cyngor gan arweinydd blynyddoedd cynnar yr ysgol ac roedd hyn wedi bod o fantais i'r gwasanaeth.

Mae hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cael ei ddatblygu.

4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn gweithredu system o arfarniadau, systemau goruchwyllo a chyfarfodydd staff.

Sicrhaodd yr arweinwyr eu bod yn cadw at y gymhareb staff i blant berthnasol. Gwelsom gofnodion manwl o gyfarfodydd goruchwyllo staff ac arsylwadau staff a nodwyd gennym eu bod yn cael eu cynnal yn rheolaidd â phob aelod o staff. Cadarnhaodd y staff eu bod yn mynd i gyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Roedd tystiolaeth yn ffeiliau'r staff yn dangos y broses sefydlu staff, a oedd yn cynnwys ymglyfarwyddo ag amgylchedd yr ysgol ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Roedd y staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i gael rhagor o hyfforddiant er mwyn datblygu eu hymarfer ymhellach, yn cynnwys hyfforddiant ELKLAN a Salley, cymhwysedd digidol, Numicon, sgiliau syrcau, dyddlyfrau dysgu, tennis ar gyfer oedran cyn ysgol a chynllunio a herio.

Mae'r ffordd y caiff y staff a'r adnoddau eraill eu rheoli yn dda.

4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn cynnwys y rhieni yn y gwasanaeth ac mae tîm bach ond cryf o arweinwyr a gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser er budd y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â'r ysgol.

Roedd yr arweinwyr wedi cael gwybodaeth fanwl am anghenion a hoffterau'r plant pan wnaethant ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd y staff ar gael bob diwrnod i siarad â'r rhieni pan fyddent yn dod â'u plant i mewn ac yn eu casglu. Roedd yr arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni drwy gylchlythyrau rheolaidd, ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy roi gwybodaeth ar hysbysfyrddau. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y plant a nodwyd gennym fod yr arweinwyr wedi cytuno ar gontract gyda'r rhieni ac wedi ceisio cydsyniad y rhieni ar gyfer agweddau penodol ar ofal y plant, fel cymryd ffotograffau, defnyddio eli haul a gweithgareddau oddi ar y safle. Roedd y gwasanaeth yn aelod o sefydliad ymbarél. Hefyd, roedd yr arweinwyr wedi gwahodd aelodau o'r gymuned i mewn i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella dysgu'r plant a gwelsom dystiolaeth ffotograffig o'r ymweliadau hyn. Roedd y Cylch wedi cyfrannu at basiant y plant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn y dref yn ddiweddar.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim. Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn.

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell fod yr arweinwyr:

- yn hysbysu AGC yn ffurfiol o'r holl ddigwyddiadau sy'n ymwneud â llesiant plant;
- yn datblygu rôl yr helpwr dyddiol;
- yn datblygu'r agwedd gynllunio ymhellach;
- yn diweddarau'r cynllun gweithredu;
- yn sicrhau bod y staff yn annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch;
- yn datblygu strategaethau rheoli ymddygiad ymhellach ac
- yn darparu mwy o dystiolaeth yn y proffiliau er mwyn helpu arsylwadau'r staff.

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 21 Mehefin 2018 a pharodd yr ymweliad am bum awr a hanner a rhoddodd adborth dros y ffôn ar 26 Mehefin 2018, a barodd am awr.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant a'r staff;
- darllen holiaduron rhieni a staff.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Sesiynol
Unigolyn Cyfrifol	Gareth Cornelius Hannah Jones Karen Probert
Person â chyfrifoldeb	Catherine Evans Estelle Wilcocks
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	24
Ystod oedran y plant	3-4 oed
Oriau agor	9.00am-11.30am 12.30pm-3.00pm Yn ystod y tymor yn unig
Iaith weithredol y gwasanaeth	Cymraeg
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	Ar ôl cofrestru
Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu	21 Mehefin 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydyw
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	Ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.
Gwybodaeth Ychwanegol:	